# Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Chwefror 2018

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 31 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *O dan delerau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn am y wybodaeth ganlynol fel taenlen XLS (Microsoft Excel).*
>
> ***1. Rhestr o Fuddsoddiadau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru***
> *A wnewch chi ddarparu rhestr o fuddsoddiadau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2016-17, neu os nad yw hyn ar gael, y data mwyaf diweddar sydd ar gael, mewn taenlen XLS.*
>
> *Ar gyfer pob buddsoddiad, a wnewch chi roi dosbarth yr asedau. Ar gyfer buddsoddiadau ecwiti, a wnewch chi gynnwys enw llawn pob ecwiti unigol, maint pob cyfran a ddelir, a chyfanswm a gwerth uned pob ecwiti.*
>
> ***2. Rheolwyr y Gronfa***
> *A wnewch chi ddarparu rhestr o unrhyw reolwyr a / neu gynghorwyr allanol a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion rheoli asedau'r gronfa bensiwn, gyda chopi o'r briff caffael cyfatebol a chyfanswm cost eu gwasanaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfatebol.*

1. Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Mae adroddiadau blynyddol a chyfrifon blaenorol hefyd ar gael ar ein gwefan.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybod@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhwydd drwy ddulliau eraill.

2. Eto, mae'r wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Sylwer bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn dal gwybodaeth yn ymwneud â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad ar ran Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau.

O dan adran 3(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth '*information is held by a public authority if—*
(a) *it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person*'.

Felly, ni ellir ystyried bod gwybodaeth a gedwir gan y Cynulliad ar ran person arall (ar ran yr Ymddiriedolwyr yn yr achos hwn) wedi'i chadw gan y Cynulliad at ddibenion y Ddeddf. O dan yr amgylchiadau, ni all y Cynulliad ddatgelu'r wybodaeth hon.

Os hoffech ofyn am ddatgelu gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi eisoes, efallai y byddwch am gysylltu â'r Ymddiriedolwyr yn uniongyrchol yn y cyfeiriad canlynol, gan gofio, fodd bynnag, nad yw'r Ymddiriedolwyr yn 'awdurdod cyhoeddus' o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly ni fyddai o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â cheisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth.

Ysgrifennydd y Cynllun
Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
d/o Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan: http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF